Awgrymir yn y ddogfen hon strwythur y gall Athrofeydd neu Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth ei ddefnyddio'n dempled ar gyfer Llawlyfrau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Ni fwriedir i'r ddogfen hon roi arweiniad hollol gynhwysfawr, oherwydd bydd gofyn i chi ystyried yn ogystal weithgareddau a phrosesau nad ydynt wedi eu cynnwys yma ond sy'n berthnasol i weithgareddau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Nodir mewn testun glas awgrymiadau ar gyfer penawdau ac adrannau ac arweiniad ar y wybodaeth i'w hystyried. Cewch ddileu neu newid y testun hwn yn ôl y galw, yn unol â gofynion yr Athrofa/Adran. Mae'r testun coch yn awgrymu dolenni a ffynonellau gwybodaeth y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol fod am gyfeirio atynt.

**CYNNWYS**


**RHAN 1**
**GWYBODAETH GYFFREDINOL**

**1.1 DATGANIAD IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

**1.2 STRWYTHUR A CHYFRIFOLDEBAU**

**1.3 PWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

**1.4 CYDLYNWYR IECHYD A DIOGELWCH**

**1.5 SWYDDOGION DIOGELWCH ARBENIGOL**

**1.6 MANNAU LLE MAE GAN YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL BRESENOLDEB SYLWEDDOL**

**1.7 CYNRYCHIOLWYR AMGYLCHEDDOL YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

**1.8 GRWPIAU DIOGELWCH ADEILADAU A GADAEL ADEILADAU MEWN ARGYFWNG**

**1.9 TREFNIADAU CYMORTH CYNTAF**

**1.10 HYSBYSFYRDDAU'R ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

**RHAN 2**
**GOFYNION CRAIDD**

**2.1 RHEOLI ASESIADAU RISG YN GYFFREDINOL**

**2.2 ASESU OFFER SGRIN ARDDANGOS**

**2.3 PROFI OFFER TRYDANOL SYMUDOL**

**2.4 DIOGELWCH MENYWOD BEICHIOG NEU FAMAU NEWYDD**

2.5 ASESU ANGHENION HYFFORDDI IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD, TREFNIADAU CYNEFINO A HYFFORDDIANT

2.6 AROLYGIADAU'R ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

2.7 COFNODI DIGWYDDIADAU AC YMCHWILIO IDDYNT

2.8 COFNODI PRYDERON YNGHYLCH IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD

2.9 RHEOLI MYNEDIAD/DIOGELWCH

2.10 YMWELWYR

2.11 STAFF SY'N GWEITHIO AR EU PEN EU HUNAIN

2.12 GWEITHIO Y TU ALLAN I ORIAU ARFEROL

2.13 GYRRU A THEITHIO SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R GWAITH

2.14 TEITHIAU/GWAITH MAES (DYSGU AC YMCHWIL)

RHAN 3
ARDALOEDD GWEITHIO

3.1 SWYDDFEYDD

3.2 LABORDAI

3.3 GWEITHDAI

3.4 ARDALOEDD CYMUNEDOL

3.5 ARDALOEDD PERFFORMIO

3.6 STIWDIOS

3.7 CEGINAU

3.8 CAFFIS / BARRAU

3.9 CYFLEUSTERAU CHWARAEON

3.10 FFERMYDD

3.11 ERAILL (I'W PENNU GAN YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL)

RHAN 4
GOFYNION ARBENIGOL

4.1 RHEOLI SYLWEDDAU PERYGLUS I IECHYD (COSHH)

4.2 RHEOLIADAU SYLWEDDAU PERYGLUS AC ATMOSFFERAU FFRWYDROL (DSEAR)

**4.3 TRYDAN**

**4.4 YMBELYDREDD**

**4.5 CODI A CHARIO**

**4.6 POBL ANODD/YMOSODOL**

**4.7 GWEITHIO MEWN MANNAU UCHEL**

**4.8 DIOGELWCH BWYD**

**4.9 SŴN A DIRGRYNIADAU**

**4.10 RHEOLI GWASTRAFF**

**4.11 CYFARPAR DIOGELU PERSONOL**

**4.12 PROFION STATUDOL**

**4.13 ERAILL**

**RHAN 1**

**GWYBODAETH GYFFREDINOL**

**1.1 DATGANIAD IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Dylai pob Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol lunio Datganiad Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, yn amlinellu eu hymrwymiadau o ran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd i'w rhanddeiliaid neu i unigolion y mae eu gweithgareddau'n effeithio arnynt, gan gynnwys staff, myfyrwyr, contractwyr, aelodau o'r cyhoedd a chleientiaid allanol. Er gwybodaeth, nodir isod Ddatganiad Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth. Efallai y bydd yr Athrofeydd/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol am sicrhau bod eu datganiadau'n cyd-fynd â Datganiad y Brifysgol neu am ei addasu yn ôl y galw, yn unol â gweithrediadau neu brosesau lleol.

*Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod bod sicrhau iechyd a diogelwch ein staff, myfyrwyr ac eraill y mae ein gweithgareddau'n effeithio arnynt, ynghyd â diogelu ansawdd yr amgylchedd, yn rhan annatod o waith y brifysgol ac yn un o gyfrifoldebau pennaf y rheolwyr ar bob lefel.*

*Yn benodol, bydd Prifysgol Aberystwyth:*

- *Yn cydymffurfio, o leiaf, â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer cysylltiedig ac yn rhagori ar y safonau perfformiad a bennwyd ganddi lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.*
- *Yn cyflawni ein gweithgareddau yn ddiogel ac mewn modd amgylcheddol gyfrifol.*
- *Yn ymdrechu o hyd i wella systemau iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, er mwyn lleihau nifer yr achosion o salwch a damweiniau sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gollyngiadau amgylcheddol a chynhyrchu gwastraff, ac er mwyn defnyddio ynni'n effeithlon.*
- *Yn mynnu bod pob un o'n staff a'n myfyrwyr yn gweithio'n ddiogel, gan roi ystyriaeth ddyledus i iechyd a diogelwch pobl eraill ac i'r amgylchedd, gan ddarparu hyfforddiant a goruchwyliaeth lle bo angen hynny.*
- *Yn cynnwys y staff ac yn ymgynghori â hwy, lle bo hynny'n briodol drwy eu cynrychiolwyr.*
- *Drwy gydnabod ein swyddogaeth hanfodol mewn addysg uwch, yn cynnwys pynciau iechyd a diogelwch, rheoli risg a datblygu cynaliadwy yn ein rhaglenni astudio a ddysgir drwy gwrs lle bo hynny'n briodol.*
- *Yn arfer egwyddorion cynaliadwyedd wrth gyrchu nwyddau a gwasanaethau.*
- *Yn mynnu bod contractwyr sy'n gweithio i ni yn derbyn yr un safonau gofal â'r brifysgol o ran iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.*
- *Yn datblygu ac yn cynnal System Rheoli Amgylcheddol fel ffordd systematig o ymdrin ag agweddau ac effeithiau amgylcheddol arwyddocaol Prifysgol Aberystwyth.*

*Bydd Prifysgol Aberystwyth yn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i weithredu'r polisi. Bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol, gan gynnwys mesur perfformiad ac archwilio cydymffurfiaeth, i sicrhau bod pawb yn deall y polisi a'i fod yn cael ei weithredu a'i gynnal ar bob lefel.*

*Caiff y polisi ei adolygu bob blwyddyn, a'i ddiweddaru yn ôl y galw, a thynnir sylw'r holl staff ac eraill y gallai hynny effeithio arnynt at unrhyw newidiadau.*

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gyfeirio hefyd at Bolisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Aberystwyth. Dylai pob Datganiad Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd fod yn seiliedig ar y polisi hwn:

http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/AU-HSE-Policy-%28Cym%29.pdf

### 1.2 STRWYTHUR A CHYFRIFOLDEBAU

Yn yr adran hon, dylech nodi ac amlinellu strwythurau trefniadol a phrif gyfrifoldebau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gyfeirio at Bolisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Aberystwyth sy'n amlinellu'r prif swyddogaethau a'r cyfrifoldebau. Gellid hefyd ystyried cofnodi trefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol a'r modd y caiff dyletswyddau eu dirprwyo, yn unol ag adran 2.8 y Polisi. Er y caiff Cyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol ddirprwyo rhai dyletswyddau penodol, Cyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd.

### 1.3 PWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Yn yr adran hon dylech amlinellu trefniadau lleol Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Nodir yn adran 2.8.8 Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol rai o'r gofynion ar gyfer Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Gallai hyn gynnwys y wybodaeth isod, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall:

- Pa mor rheolaidd y cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yr Athrofa/Adran.
- Cyfansoddiad a chylch gorchwyl Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yr Athrofa/Adran.
- Sut y gall yr aelodau gael gafael ar gofnodion a phapurau'r Pwyllgor.
- Aelodaeth gyfredol Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol e.e.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

### 1.4 CYDLYNWYR IECHYD A DIOGELWCH

Ceir diffiniad a disgrifiad o gyfrifoldebau'r Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn Adran 2.9 Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol: (http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/AU-HSE-Policy-%28Cym%29.pdf)

*Aelodau o staff yw'r Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch sydd yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd o fewn eu Hathrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol a chânt eu penodi gan Gyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn unol â chylch gorchwyl clir.*

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am enwau a manylion cyswllt Cydlynydd/Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylid nodi y gallai fod gan Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol fwy nag un Cydlynydd Iechyd a Diogelwch

(mewn gwahanol adrannau, meysydd gweithredol ac ati), fel y bydd Cyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn ei gweld yn briodol.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

### 1.5 SWYDDOGION DIOGELWCH ARBENIGOL

Ni fydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol o reidrwydd am benodi swyddogion diogelwch arbenigol yn rhan o'u strwythur. Gellid ystyried penodi swyddogion o'r fath os yw gweithgareddau neu weithrediadau penodol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn cynnwys prosesau neu offer arbenigol megis ymbelydredd, laser ac ati. Cyfarwyddwr yr Athrofa neu Bennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol fydd yn penderfynu a yw'n briodol penodi'r swyddogion hyn, ond nid yw'n ofyniad penodol. Gallai'r meysydd y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn penderfynu penodi Swyddogion Diogelwch Arbenigol ar eu cyfer gynnwys y rhai isod, ond efallai y bydd meysydd eraill i'w hystyried hefyd:

- Swyddog Diogelwch Ymbelydredd
- Swyddog Diogelwch Laser
- Swyddog Diogelu Plant

### 1.6 MANNAU LLE MAE GAN YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL BRESENOLDEB SYLWEDDOL

Dylai'r adran hon gynnwys manylion am yr adeiladau lle mae gan yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol bresenoldeb sylweddol. Dylai hyn gynnwys adeiladau lle ceir gweithfannau staff yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol a/neu adeiladau lle cynhelir gweithgareddau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

Gellid cynnwys gwybodaeth am enw'r adeilad, y cyfeiriad, maes/meysydd gweithredu'r adran(nau) sy'n digwydd yn yr adeilad hwnnw, a rhif cyswllt derbynfa neu ofalwr yr adeilad, ond dylid cynnwys gwybodaeth arall hefyd.

| Adeilad | Cyfeiriad | Adran | Rhif Cyswllt |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

### 1.7 CYNRYCHIOLWYR AMGYLCHEDDOL YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am enwau a manylion cyswllt Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr Amgylcheddol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylid nodi y gallai fod gan Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol fwy nag un Cynrychiolydd Amgylcheddol (mewn gwahanol adrannau, meysydd gweithredu ac ati), fel y bydd Cyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn ei gweld yn briodol.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**1.8 GRWPIAU DIOGELWCH ADEILADAU A GADAEL ADEILADAU MEWN ARGYFWNG**

Gellid cyfeirio at y mathau o gynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gadael yr adeilad, a'r man(nau) ymgynnull cywir ar gyfer pob adeilad pe bai'r larwm tân yn seinio.

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gyfeirio hefyd at lawlyfrau Diogelwch Tân yr adeiladau perthnasol os yw hynny'n briodol.

Dylid sicrhau hefyd fod yr aelodau'n gwybod am wasanaeth Desg Gymorth Gwasanaethau'r Campws, lle dylid cyfeirio ceisiadau am waith cynnal a chadw. Mae Desg Gymorth Gwasanaethau'r Campws ar gael dros y ffôn ar 01970 62 (2999) (24 awr) neu drwy anfon ebost i campushelp@aber.ac.uk.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau atynt:

Mae gwybodaeth am Ddiogelwch Tân ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/

Mae gwybodaeth am Gyrsiau Hyfforddi Swyddogion Tân ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/fire-marshal/

Mae manylion am y cyrsiau sydd wedi'u trefnu a'r trefniadau ar gyfer neilltuo lle ar gael ar dudalennau hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php

**1.9 TREFNIADAU CYMORTH CYNTAF**

Dylai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gynnwys rhestr o bob aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Byddai'n dda o beth gwahaniaethu rhwng staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (FAW) a Chymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (EFAW). Gallai'r Athrofa/Adran gynnwys enwau, lleoliadau, manylion cyswllt a phryd y daw'r drwydded i ben.

**STAFF SYDD WEDI CAEL HYFFORDDIANT CYMORTH CYNTAF YN Y GWAITH (FAW)**

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn | Dyddiad dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**STAFF SYDD WEDI CAEL HYFFORDDIANT CYMORTH CYNTAF BRYS YN Y GWAITH (EFAW)**

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn | Dyddiad dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|

**SWYDDOGION CYMORTH CYNTAF IECHYD MEDDWL**

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn | Dyddiad dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am Gyrsiau Hyfforddi Cymorth Cyntaf ar gael yn:
https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/first-aid-training/

Mae gwybodaeth am Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gael yn:
https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/health/mental-health/first-aid/

Mae manylion am y cyrsiau sydd wedi'u trefnu a'r trefniadau ar gyfer neilltuo lle ar gael ar dudalennau hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php

Gellid cynnwys gwybodaeth am leoliadau blwch/blychau cymorth cyntaf yr Athrofa/Adran hefyd, yn ogystal â'r trefniadau lleol ar gyfer gofyn am gyflenwadau cymorth cyntaf ychwanegol neu gyflenwadau newydd.

Cliciwch ar y ddolen isod i weld y ffurflen Cais am Restr Cynnwys Blychau Cymorth Cyntaf:
https://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/first-aid/

**1.10 HYSBYSFYRDDAU'R ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Dylai hysbysfyrddau dynodedig Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd fod ar gael yn ardaloedd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Dylai'r hysbysfyrddau hyn fod mewn mannau amlwg a hawdd mynd atynt.

Dylid arddangos y dogfennau isod, ond gellid hefyd arddangos dogfennau eraill:

- Rhifau ffôn argyfwng a rhifau y tu allan i oriau arferol
- Enwau, lleoliadau a rhifau cyswllt staff cymorth cyntaf lleol
- Lleoliad y blwch/blychau cymorth cyntaf agosaf
- Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cofnodi digwyddiadau
- Copi o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y Brifysgol
- Gwybodaeth am drefniadau cynefino a hyfforddiant iechyd, diogelwch a'r amgylchedd
- Poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar y gyfraith (mae copïau caled ar gael gan yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd)
- Mannau ymgynnull gadael adeiladau mewn argyfwng

Dylai'r llawlyfr nodi'n glir fod cyngor ar sut i gael y wybodaeth hon ar gael gan yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

**RHAN 2**

**GOFYNION CRAIDD**

Yn yr adran hon dylech nodi ac amlinellu trefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer pob un o'r gofynion craidd a nodir. Gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio at weithdrefnau neu lawlyfrau lleol yn yr adran hon, neu ddweud sut y mae'r trefniadau lleol yn cydymffurfio â chanllawiau neu weithdrefnau Prifysgol Aberystwyth.

## 2.1 RHEOLI ASESIADAU RISG YN GYFFREDINOL

Gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch Rheoli Asesiadau Risg, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Gallai hyn gynnwys trefniadau lleol ar gyfer llunio, cymeradwyo a chadw asesiadau risg. Argymhellir bod pob Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn cadw pob Asesiad Risg cysylltiedig yn electronig ac mewn man canolog sydd ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff.

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol hefyd am ystyried ei llinell amser ar gyfer adolygu asesiadau risg h.y. dylid adolygu pob Asesiad Risg o bryd i'w gilydd, a mynd ar drywydd digwyddiadau neu fethiannau agos sy'n gysylltiedig ag asesiad risg penodol.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae Cyfarwyddyd Prifysgol Aberystwyth ar Arfer Safonol wrth Reoli Diogelwch Asesiadau Risg ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/riskassessment/AU-HSE-RA-SPI.pdf

Mae 'Pum cam i asesu risg' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyfarwyddyd ar arfer gorau wrth lunio asesiadau risg effeithiol: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/riskassessment/indg163(v2).pdf

Mae Asesiadau Risg enghreifftiol ar gyfer amryw o weithgareddau ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/education-sector/

Mae gwybodaeth am Gyrsiau Hyfforddi Asesu Risg ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/hse/training/risk-training/

Mae manylion am y cyrsiau sydd wedi'u trefnu a'r trefniadau ar gyfer neilltuo lle ar gael ar dudalennau hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php

## 2.2 ASESU OFFER SGRIN ARDDANGOS

Gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer asesu Offer Sgrin Arddangos, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am ymhelaethu ar ei threfniadau lleol ar gyfer cynnal a chofnodi asesiadau Offer Sgrin Arddangos a gweithredu'r argymhellion ar gyfer y staff. Gallai hyn gynnwys unigolyn/unigolion cyswllt allweddol yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol y gellir cyfeirio ymholiadau ato/atynt.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae Cyfarwyddyd Prifysgol Aberystwyth ar Arfer Safonol ar gyfer Offer Sgrin Arddangos ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/DSE_Standard_Practice_Instruction_Revised.pdf

Mae Rhestr Wirio Gweithfannau Sgrin Arddangos ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/vduchecklist_welsh.pdf

Mae rhagor o wybodaeth am Offer Sgrin Arddangos ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/dse/

## 2.3 PROFI OFFER TRYDANOL SYMUDOL

Dylai'r adran hon gynnwys manylion cyswllt yr unigolion sy'n gyfrifol am gynnal neu am drefnu profion ar offer symudol ym mhob adran/adeilad/ardal weithredol fel y bydd Cyfarwyddwr yr Athrofa/Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn ei gweld yn briodol. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol hefyd am gynnwys dyddiadau'r profion diwethaf a wnaed ar offer symudol a phryd y bwriedir cynnal y cylch nesaf o brofion.

| Adran/Ardal Weithredol | Enw | Cyswllt | Ebost | Prawf diwethaf | Prawf nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol hefyd am gyfeirio'r darllenwyr at gofrestr yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol o'r holl offer trydanol y mae angen eu profi ac sydd wedi eu profi.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am Brofi Offer Symudol ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/electricity/

## 2.4 DIOGELWCH MENYWOD BEICHIOG A MAMAU NEWYDD

Gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch diogelwch menywod beichiog neu famau newydd, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am egluro cyfrifoldebau a swyddogaethau unigolion ar lefel leol o safbwynt menywod beichiog a mamau newydd.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae dogfen Gwybodaeth Diogelwch Prifysgol Aberystwyth i Fenywod Beichiog a Mamau Newydd ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/procedurespracticesforms/s006rev3b.pdf

Mae rhagor o ganllawiau ynglŷn â Diogelwch Menywod Beichiog a Mamau Newydd ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/mothers/

**2.5 ASESU ANGHENION HYFFORDDI IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD, TREFNIADAU CYNEFINO A HYFFORDDIANT**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer nodi, bodloni a chofnodi anghenion hyfforddi staff yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Dylid ystyried yr adrannau isod:

a) Asesu Anghenion Hyfforddi

Dylid cyfeirio at y modd y mae'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn nodi anghenion hyfforddi pob unigolyn neu grŵp o staff.

b) Cynefino

Dylid cofnodi yn yr adran hon drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer sesiynau cynefino i staff newydd. Gellid cyfeirio at y sesiynau cynefino canolog y mae'r adran Adnoddau Dynol yn eu cynnal, ond dylid cynnwys manylion am ofynion a threfniadau cynefino ar lefel yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol hefyd. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gynnwys manylion cyswllt yr unigolion sy'n gyfrifol am drefniadau cynefino lleol.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Bydd Adroddiad Cynefino Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (S010F) yn rhoi syniad i'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch pa fath o faterion y dylai'r broses gynefino leol eu hystyried.

Dylai'r aelodau nodi bod Polisi Prifysgol Aberystwyth ar Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wrthi'n cael ei ddatblygu, ac y dylid cyfeirio ato yn y ddogfen hon pan fydd wedi ei gymeradwyo.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae Adroddiad Cynefino Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (S010F) ar gael yn:
http://www.aber.ac.uk/cy/hse/faq/hse_induction/

c) Hyfforddiant

Gellid cynnwys yn yr adran hon wybodaeth am y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael i'r staff. Gallai hyn gynnwys cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu darparu'n allanol, rhai y mae'r adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn eu darparu, a chyrsiau mewnol a ddarperir gan aelodau o'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Efallai y bydd yr aelodau hefyd am gofnodi unrhyw hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid i unigolion mewn swyddi penodol ei gyflawni.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y mae'r adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn eu darparu ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/

Mae manylion am y cyrsiau sydd wedi'u trefnu a'r trefniadau ar gyfer neilltuo lle ar gael ar dudalennau hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php

**2.6 AROLYGIADAU'R ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Dylid cofnodi yn yr adran hon drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch cynnal arolygiadau. Gellid ystyried nodi pa mor aml y cynhelir arolygiadau, manylion yr unigolion sy'n gyfrifol am gydlynu a gweithredu'r arolygiadau, a'r meini prawf ar gyfer cynnal arolygiadau. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gyfeirio at ddogfen canllawiau mewnol os oes un ar gael.


Efallai y bydd y defnyddwyr am ystyried y materion isod wrth gynnal arolygiadau yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol, ond bydd materion eraill i'w hystyried hefyd:

- Trefniadau cadw tŷ cyffredinol
- Cynnal a chadw cyffredinol
- Diogelwch trydanol
- Cymorth cyntaf
- Amodau amgylcheddol
- Lles
- Gweithfannau e.e. offer sgrin arddangos
- Sylweddau peryglus a pheiriannau (os yw hynny'n berthnasol)
- Codi a chario
- Cyfarpar diogelu personol
- Cofnodi damweiniau a digwyddiadau
- Yr amgylchedd

**2.7 COFNODI DIGWYDDIADAU AC YMCHWILIO IDDYNT**

Dylid cofnodi yn yr adran hon drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac ymchwilio iddynt. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am ddangos sut y mae ei threfniadau lleol yn cydymffurfio â threfn Prifysgol Aberystwyth ar gyfer cofnodi digwyddiadau.

Nodir isod y broses arferol ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac ymchwilio iddynt:



Gallai'r adran hon gynnwys manylion cyswllt y sawl a fydd yn derbyn y Ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae Cyfarwyddyd Safonol ar Gofnodi Digwyddiadau ac Achosion o Afiechyd Galwedigaethol ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/procedurespracticesforms/S002.pdf

Mae'r Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau ac Iechyd Galwedigaethol (S002F) ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/procedurespracticesforms/S002F_cy.pdf

## 2.8 COFNODI PRYDERON YNGHYLCH IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer cofnodi pryderon ynghylch Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Gallai gynnwys dulliau ffurfiol neu anffurfiol y gall unigolion eu defnyddio i godi materion neu bryderon ynghylch diogelwch yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol. Efallai y bydd yr aelodau hefyd am gofnodi trefn ar gyfer derbyn pryderon, ymchwilio iddynt a gweithredu (os bernir bod hynny'n briodol ac yn angenrheidiol).

## 2.9 RHEOLI MYNEDIAD/DIOGELWCH

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch defnyddio adeiladau a mynediad iddynt, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ystyried yr adeiladau a ddefnyddir, neu'r adeiladau lle mae gan yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol bresenoldeb sylweddol, oriau agor yr adeilad yn ystod y tymor ac ar adegau eraill (os ydynt yn wahanol), a threfniadau mynediad i'r staff y tu allan i oriau arferol.

| Adran/Ardal Weithredol | Yr adeilad a ddefnyddir | Oriau agor yr adeilad (yn ystod y tymor) | Oriau agor yr adeilad (ar adegau eraill) | Trefniadau mynediad y tu allan i oriau arferol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Gallai'r adran hon hefyd gyfeirio'r darllenydd at adrannau 'Staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain' a 'Gweithio y tu allan i oriau arferol' y ddogfen hon.

Gellid hefyd ystyried atgoffa'r staff o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud wrth adael yr adeilad e.e. diffodd y goleuadau, cloi drysau swyddfeydd, cau pob ffenestr ac ati. Os yw hynny'n berthnasol, gellid ystyried cynnwys unrhyw ofynion ychwanegol o ran yr hyn y disgwylir i'r aelod olaf o'r staff i adael yr adeilad ei wneud.

**2.10 YMWELWYR**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer sicrhau diogelwch ymwelwyr, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am wahaniaethu rhwng y trefniadau lleol ar Ddiwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld, ymweliadau annisgwyl gan aelodau o'r cyhoedd, a chydweithwyr neu academyddion sy'n ymweld o brifysgolion neu sefydliadau eraill.

Efallai y bydd y defnyddwyr am ystyried y materion isod, ond bydd materion eraill i'w hystyried hefyd:

- Gwybodaeth a chyfathrebu
- Goruchwylio
- Trefniadau diogelwch
- Cyfarpar diogelu personol
- Trefniadau argyfwng
- Damweiniau neu ddigwyddiadau
- Dyletswyddau'r staff
- Personél heb eu hawdurdodi

**2.11 STAFF SY'N GWEITHIO AR EU PEN EU HUNAIN**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Gellid ystyried materion megis camau i roi gwybod i Reolwyr Llinell am staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, a disgwyliadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn gyffredinol o ran staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, ond dylid ystyried materion eraill hefyd. Dylai'r defnyddwyr nodi bod Prifysgol Aberystwyth wrthi'n datblygu polisi ar gyfer staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, ac y bydd ar gael wedi iddo gael ei gymeradwyo.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/gweithioareichpeneichhun/

**2.12 GWEITHIO Y TU ALLAN I ORIAU ARFEROL**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch gweithio y tu allan i oriau arferol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am gyfuno'r adran hon â'r adran ar Staff sy'n Gweithio ar eu Pen eu Hunain, oherwydd gallai'r canllawiau fod yn debyg iawn.

**2.13 GYRRU A THEITHIO SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R GWAITH**

Gall fod gan yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ei cherbydau ei hun i wneud gwaith y Brifysgol, neu efallai fod cerbydau Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol arall ar gael iddi eu defnyddio. Dylai'r adran

hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cerbydau'r Brifysgol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Dylai'r defnyddwyr nodi mai dim ond ar fusnes y Brifysgol y dylid defnyddio cerbydau Prifysgol Aberystwyth. Dylent nodi hefyd fod yn rhaid wrth ganiatâd penodol i ddefnyddio cerbydau'r Brifysgol. Mae ffurflenni awdurdodi ar gael gan yr Adran Gyllid.

Lle bo gan Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ei cherbyd(au) ei hun, efallai y bydd y defnyddwyr am nodi trefniadau lleol a fydd cynnwys y trefniadau isod, ond gallai fod trefniadau eraill i'w hystyried hefyd:

- Y broses ar gyfer bod yn yrrwr awdurdodedig, a dulliau mewnol o gadw rhestrau cyfredol o yrwyr awdurdodedig yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol.
- Manylion unigolion enwebedig yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r cerbydau a'u cynnal a'u cadw. Gallai hyn gynnwys: cynnal asesiadau risg ar ddyletswyddau safonol sy'n gysylltiedig â theithio, rhestrau gwirio i'w cwblhau cyn pob siwrnai, sicrhau bod cerbydau'n cael archwiliadau gwasanaeth rheolaidd, tystysgrifau MOT a gwaith cynnal a chadw cyffredinol.
- Dylid gweithredu a chynnal system ar gyfer cofnodi dyddiad, diben a phellter unrhyw deithio a wneir yng ngherbydau'r Brifysgol.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae ffurflenni cais i fod yn un o yrwyr awdurdodedig y Brifysgol ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/finance/information-for-staff/forms/

Mae gwybodaeth ynglŷn â chludiant a theithio ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/travel/

Mae Taflenni Archwilio Cerbydau yn Ddyddiol ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/vehicle-inspection-sheets/

**2.14 TEITHIAU/GWAITH MAES (DYSGU AC YMCHWIL)**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch teithiau/gwaith maes, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Bydd yr adran hon yn arbennig o berthnasol i'r Athrofeydd hynny y mae eu staff yn gwneud gwaith maes at ddibenion dysgu a/neu ymchwil, neu y mae eu myfyrwyr yn gwneud gwaith maes neu'n mynd ar ymweliadau sy'n rhan orfodol neu ddewisol o'u rhaglenni astudio.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am Ddiogelwch Gwaith Maes ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fieldwork/

Mae Pecynnau Asesu Risg Gwaith Maes, gan gynnwys Rhestr Wirio Gwaith Maes, ar gael yma: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/

**RHAN 3**

**ARDALOEDD GWEITHIO**

Dylai'r adrannau isod nodi ac amlinellu trefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer pob un o'r ardaloedd gweithio perthnasol.

Gallai'r defnyddwyr ystyried yr ardaloedd isod, ond gallai fod ardaloedd eraill i'w hystyried hefyd:

**3.1 SWYDDFEYDD**

**3.2 LABORDAI**

**3.3 GWEITHDAI**

**3.4 ARDALOEDD CYMUNEDOL**

**3.5 ARDALOEDD PERFFORMIO**

**3.6 STIWDIOS**

**3.7 CEGINAU**

**3.8 CAFFIS / BARRAU**

**3.9 CYFLEUSTERAU CHWARAEON**

**3.10 FFERMYDD**

**3.11 ERAILL (I'W PENNU GAN YR ATHROFA/ADRAN GWASANAETHAU PROFFESIYNOL)**

Ar ôl nodi'r ardaloedd gweithio, mae'n rhaid i'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gofnodi'r trefniadau lleol ar gyfer y gofynion arbenigol ym mhob un o'r ardaloedd gweithio fel y gwelir yn briodol.

Dylai'r defnyddwyr nodi y dylid ystyried canllawiau ynghylch y gofynion arbenigol ar gyfer yr holl ardaloedd gweithio perthnasol **ar ben** y gofynion craidd a nodwyd eisoes.

**RHAN 4**

**GOFYNION ARBENIGOL**

**4.1 RHEOLIADAU RHEOLI SYLWEDDAU PERYGLUS I IECHYD (COSHH)**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Efallai y bydd y defnyddwyr am ystyried y materion isod, ond gallai fod materion eraill i'w hystyried hefyd:

- Y trefniadau lleol ar gyfer cofnodi a chynnal cofnodion y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd;
- Y trefniadau lleol ar gyfer cynnal a chofnodi Asesiadau Risg COSHH, yn unol â'r Rheoliadau COSHH;
- Cofnodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau wrth gefn os ceir digwyddiadau sy'n cynnwys sylweddau peryglus.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ar gael yn:
http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/coshh/

**4.2 RHEOLIADAU SYLWEDDAU PERYGLUS AC ATMOSFFERAU FFRWYDROL (DSEAR)**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol (DSEAR), ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Efallai y bydd y defnyddwyr am ystyried y materion isod, ond gallai fod materion eraill i'w hystyried hefyd:

- Nodi'r sylweddau peryglus a gedwir gan yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol a'r peryglon tân a ffrwydro cysylltiedig.
- Camau rheoli er mwyn dileu'r peryglon hyn, neu os nad oes modd eu dileu, eu rheoli.
- Camau i liniaru effeithiau unrhyw ddigwyddiad neu ddigwyddiad posib sy'n cynnwys sylweddau peryglus.
- Trefniadau ar gyfer paratoi cynlluniau a gweithdrefnau os ceir digwyddiadau sy'n cynnwys sylweddau peryglus.
- Dulliau o sicrhau bod unigolion sy'n dod i gysylltiad â Sylweddau Peryglus a/neu Atmosfferau Ffrwydrol yn cael gwybod am y risgiau cysylltiedig ac yn cael eu hyfforddi i ymdrin â'r risgiau hynny.
- Nodi ardaloedd yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol lle y gall atmosfferau ffrwydrol ddigwydd a llunio camau i osgoi ffynonellau tanio yn yr ardaloedd hynny.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol (DSEAR) ar gael yn:
http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/dsear/

**4.3 TRYDAN**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch offer trydanol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Gallai'r adran hon fanylu ar offer trydanol penodol neu arbenigol na chawsant eu hystyried eisoes yn Adran 2.3.

### 4.4 YMBELYDREDD

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch ffynonellau o ymbelydredd, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dim ond i'r Athrofeydd/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gwneud gwaith â ffynonellau o ymbelydredd y mae'r adran hon yn berthnasol.

Gellir cyfeirio'r defnyddwyr at Reolau Lleol y Brifysgol ar Ymbelydredd Ïoneiddio (https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/radiation/). Efallai y bydd yr Athrofeydd/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol perthnasol hefyd am gyfeirio at eu cyfarwyddiadau lleol ar arfer safonol, a chyfeirio eu defnyddwyr atynt; gallai'r cyfarwyddiadau hynny gynnwys y gofynion hyfforddi, dulliau o waredu'r deunydd a gweithdrefnau monitro staff, ond bydd cyfarwyddiadau eraill i'w hystyried hefyd.

Efallai y bydd y defnyddwyr am gofnodi, lle y bo'n berthnasol, fanylion cyswllt Goruchwylwyr Diogelwch Ymbelydredd eu Hathrofa neu eu Hadran.

| Enw | Adran | Lleoliad | Ebost | Ffôn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am ymbelydredd ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/radiation/

### 4.5 CODI A CHARIO

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch codi a chario, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylid ystyried tasgau a wneir yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gofyn am godi a chario, a dylid darparu canllawiau i'r aelodau sy'n ymdrin â'r tasgau hynny. Dylai'r canllawiau gynnwys y disgwyliadau lleol o ran codi a chario, y gofynion hyfforddi, a chyfeiriadau at yr asesiadau risg priodol, ond dylai'r canllawiau gynnwys agweddau eraill hefyd.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae canllawiau ar Godi a Chario ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/manual-handling/

Mae gwybodaeth am Gyrsiau Hyfforddi Codi a Chario ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/man-han-training/

Mae manylion am y cyrsiau sydd wedi'u trefnu a'r trefniadau ar gyfer neilltuo lle ar gael ar dudalennau hyfforddiant Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php

### 4.6 POBL ANODD/YMOSODOL

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch ymdrin â phobl anodd neu ymosodol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylai gynnwys gwybodaeth am y darpariaethau lleol ar gyfer amddiffyn staff a myfyrwyr rhag pobl anodd neu ymosodol, fel y'u nodir yn yr asesiadau risg perthnasol.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae Polisi'r Brifysgol ar Urddas a Pharch yn y Gweithle ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/dignity/

Mae Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar Ymddygiad Ymosodol yn y Gweithle ar gael yn: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg69.pdf

### 4.7 GWEITHIO MEWN MANNAU UCHEL

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch gweithio mewn mannau uchel. Dylid rhoi ystyriaeth i dasgau a gyflawnir yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol lle mae'n rhaid gweithio mewn mannau uchel, a rhoi canllawiau i'r aelodau sy'n gwneud y tasgau hyn. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys disgwyliadau a gweithdrefnau lleol ar gyfer gweithio mewn mannau uchel, y gofynion hyfforddi i bob aelod o'r staff sy'n gwneud gwaith o'r fath, a chyfeiriadau at yr asesiadau risg priodol, ond byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae canllawiau ynghylch Gweithio mewn Mannau Uchel ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/working-at-height/

### 4.8 DIOGELWCH BWYD

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch diogelwch bwyd, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Bydd yr adran hon yn berthnasol yn bennaf i Athrofeydd/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y mae eu gweithgareddau a'u gweithrediadau'n cynnwys gweini bwyd. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys disgwyliadau a gweithdrefnau lleol ynghylch diogelwch bwyd, y gofynion hyfforddi i bob aelod o'r staff sy'n gwneud gwaith o'r fath, a chyfeiriadau at yr asesiadau risg priodol, ond dylent hefyd gynnwys gwybodaeth arall.

Efallai y bydd yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol am roi arweiniad yn yr adran hon ynghylch y trefniadau lleol ar gyfer staff sy'n dosbarthu bwydydd wedi eu pobi neu eu coginio gartref o safbwynt hylendid bwyd.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae canllawiau sylfaenol ynghylch diogelwch bwyd ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/faq/

Mae gwybodaeth am fwyd a diod ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/food-drink/

### 4.9 SŴN A DIRGRYNIADAU

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch rheoli cysylltiad staff a myfyrwyr â sŵn a dirgryniadau, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylid rhoi ystyriaeth i dasgau a gyflawnir yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol sy'n golygu dod i gysylltiad â sŵn a/neu ddirgryniadau, a rhoi canllawiau i'r aelodau sy'n cyflawni tasgau o'r fath. Efallai y bydd y defnyddwyr am gofnodi'r tasgau a/neu'r ardaloedd yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol lle mae'r staff neu'r myfyrwyr yn dod i gysylltiad â sŵn neu ddirgryniadau gormodol.

Dylai'r canllawiau hyn gynnwys disgwyliadau lleol ynghylch sŵn a dirgryniadau, y gofynion hyfforddi cysylltiedig, a chyfeiriadau at yr asesiadau risg priodol, ond dylent hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylid cyfeirio'r aelodau at yr unigolyn cyswllt y dylid troi ato i drafod unrhyw bryderon neu faterion ynghylch cysylltiad â sŵn a/neu ddirgryniadau.

**4.10 RHEOLI GWASTRAFF**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch rheoli gwastraff, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Efallai y bydd y defnyddwyr am wahaniaethu rhwng y trefniadau lleol ar gyfer ailgylchu, lleihau gwastraff a mathau penodol o wastraff (os yw hynny'n berthnasol).

Efallai y bydd y defnyddwyr am ystyried y trefniadau gwastraff isod, ond gallai fod trefniadau eraill i'w hystyried hefyd:

- Gwastraff cyffredinol
- Ailgylchu gwastraff
- Gwastraff ynni
- Gwastraff peryglus
- WEEE (Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff)
- Mathau eraill o wastraff fel y bo'n berthnasol

Efallai y bydd y defnyddwyr hefyd am gyfeirio at gynlluniau mewnol i leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn cadw at Fentrau Effeithiau Gwyrdd Undeb y Myfyrwyr.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae gwybodaeth am Reoli Gwastraff ac Ailgylchu ar gael yn: http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/waste-disposal/

**4.11 CYFARPAR DIOGELU PERSONOL**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch Cyfarpar Diogelu Personol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylai'r adran gynnwys y manylion isod, ond dylai hefyd gynnwys manylion eraill hefyd:

- Tasgau neu weithgareddau yn yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol y mae'n rhaid i unigolion wisgo cyfarpar diogelu personol ar eu cyfer.
- Cyfeirio at asesiadau risg perthnasol lle nodwyd bod angen cyfarpar diogelu personol.

- Rhestr o gyfarpar y mae'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn ei ystyried yn gyfarpar diogelu personol.
- Trefn ar gyfer cofnodi a dosbarthu cyfarpar diogelu personol a chyflwr cyfredol pob cyfarpar diogelu personol.
- Trefn lle gall aelodau roi gwybod am ddifrod neu nam i gyfarpar diogelu personol a gofyn am gyfarpar newydd yn ei le.
- Trefn ar gyfer monitro a chynnal cydymffurfiaeth â safonau'r diwydiant ar gyfer cyfarpar diogelu personol.

Dylai'r aelodau nodi bod Prifysgol Aberystwyth wrthi'n datblygu Polisi Cyfarpar Diogelu Personol, ac y dylid cyfeirio ato yn y ddogfen hon wedi iddo gael ei gymeradwyo.

Dyma rai ffynonellau y gallai'r Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio aelodau o'r staff atynt:

Mae canllawiau ynghylch Cyfarpar Diogelu Personol yn y gwaith ar gael yn:
http://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/ppe/

**4.12 PROFION STATUDOL**

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am drefniadau lleol yr Athrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol ynghylch Profion Statudol, ond gallai hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Dylai hyn gynnwys unrhyw offer neu systemau arbenigol y mae angen eu profi'n rheolaidd, megis profion calibradu ac archwiliadau. Efallai y bydd yr aelodau am gofnodi dyddiad y prawf nesaf, a gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion profi.

**4.13 ARALL**

Efallai y bydd y defnyddwyr am dynnu sylw at Ofynion Arbenigol eraill yn eu Hathrofa/Adran Gwasanaethau Proffesiynol fel y gwelant yn berthnasol. Dylai defnyddwyr hefyd nodi na fwriedir i'r ddogfen hon fod yn ganllaw hollol gynhwysfawr i'r gofynion a'r materion y dylid eu cofnodi. Y gobaith yn hytrach yw y bydd yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y mathau o ofynion, materion a gwybodaeth y gallai'r Athrofeydd/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gyfeirio defnyddwyr atynt.